**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**
**Legislation Committee No.2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Ann Beynon
Cyfarwyddwr BT Cymru
Ty Cynnal
Watkiss Way
Ely Fields
Caerdydd CF11 OSW

**Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) – tystiolaeth ychwanegol i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**

19 Mai 2010

Annwyl Ann,

1. Yn ddiweddar, buoch yn rhoi tystiolaeth gerbron Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1 ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru) ar ran BT Cymru. Rydwyf yn ddiolchgar iawn ichi am fynychu'r cyfarfod ac am gyfrannu at sesiwn dystiolaeth hynod ddefnyddiol.

2. Yn anffodus, ni chafwyd amser i drafod yr holl faterion ar 13 Mai. Rwy'n ysgrifennu atoch felly i ofyn a fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol yn ysgrifenedig:

a) Rydych yn datgan yn eich tystiolaeth ysgrifenedig nad yw'n bosibl gwneud sylwadau am effeithiau ariannol y Mesur arfaethedig, oherwydd diffyg eglurder. A allwch ehangu ar y datganiad hwn os gwelwch yn dda?

b) A ydych yn fodlon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, sydd wedi ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn gwneud asesiad cywir o effeithiau ariannol y Mesur arfaethedig?

c) A oes gennych unrhyw farn am y modd y bydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn effeithio ar ddefnyddwyr yn ymarferol?

3. A fyddech cystal ag ateb erbyn 4 Mehefin.

Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Legislation Office
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 02920 898101
E-bost / Email: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

4. Os nad yw'r cwestiynau'n glir, mae croeso i chi gysylltu ag Owain Roberts, Dirprwy Glerc y Pwyllgor ar 029 2089 8101 (owain.roberts@cymru.gsi.gov.uk) i drafod y cwestiynau ymhellach.

Yn gywir,

Val Lloyd AC
Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2